

**Blynyddoedd yn gorffen â 6**



Mae eleni'n flwyddyn fawr yng Nghaerdydd gan fod can mlynedd ers i Roald Dahl gael ei eni yn y ddinas. Bydd dathlu mawr o 16 i 17 Medi, gyda sioe liwgar 'City of the Unexpected' yng Nghanolfan y Mileniwm. Hefyd, bydd arddangosfa o waith Quentin Blake, sydd wedi darlunio llyfrau Roald Dahl.

Ond beth yn union yw cysylltiad Roald Dahl â Chaerdydd?

- Cafodd Roald Dahl ei eni yng Nghaerdydd yn 1916. Roedd ei dad, Harald Dahl, yn dod o Oslo, Norwy yn wreiddiol, ond roedd wedi dod i Gaerdydd i weithio. Roedd Sofie, mam Roald, yn dod o Norwy hefyd ac roedd Roald yn siarad Norwyeg a Saesneg.
- Cafodd Roald Dahl ei fedyddio yn yr Eglwys Norwyaidd yn nociau Caerdydd. Hefyd, roedd y teulu'n mynd yno i addoli. Roedd yr eglwys yn rhoi croeso i forwyr o Norwy a oedd yn cludo pren i wneud propiau yn y pyllau glo yn ne Cymru. Yn y 1970au, roedd yr eglwys mewn cyflwr gwael, ac arweiniodd Roald Dahl ymgyrch i godi arian i'w hachub.
- Mae rhieni Roald Dahl wedi eu claddu ym mynwent Eglwys Iwan Fedyddiwr, Radyr, Caerdydd.
- Buodd Roald yn byw yn Radyr a Llandaf.
- Roedd yn hoffi mynd i wylïo Caerdydd yn chwarae pêl-droed gyda Joss (neu Jones) y garddwr.
- Aeth Roald i Ysgol y Gadeirlan, Llandaf pan oedd yn saith oed, am ddwy flynedd.
- Symudodd Roald Dahl symud o Landaf i ysgol breswyl ger Weston-super-Mare pan oedd yn naw oed, ond roedd y teulu'n dal i fyw yn Llandaf tan oedd Dahl yn 11 oed.
- Roedd teulu Roald Dahl yn mynd i Ddinbych-y-pysgod yn gyson ar eu gwylïau Pasg, ond i Norwy y bydden nhw'n mynd ar eu gwylïau haf.



Yn ei hunangofiant, *Bnx*, mae Roald Dahl yn sôn amdano ef a'i ffrindiau'n mynd i siop losin Mrs Pratchett yn Llandaf. Dynes gas iawn oedd hi. Ar ôl i un bachgen ddod o hyd i lygoden farw yn yr ysgol, penderfynodd Roald a'i ffrindiau chwarae tric arni. Dyma Roald yn gollwng y llygoden farw mewn jar o losin heb i Mrs Pratchett weld. Wedyn, wrth iddi hi godi'r jar a sylwi ar y llygoden, cafodd hi gymaint o sioc hyd nes iddi ollwng y jar i'r llawr. Torrodd y jar yn deilchion. Roedd Mrs Pratchett yn gynddeiriog, a gwnaeth yn siŵr fod y bechgyn yn cael eu cosbi'n gas. Oherwydd hyn, penderfynodd mam Roald ei symud i'r ysgol ger Weston-super-Mare.





## Yn 1976 cafodd Ras yr Wyddfa ei chynnal am y tro cyntaf



Mae Ras yr Wyddfa'n enwog drwy'r byd. Mae'n dathlu 40 mlynedd eleni.

Ken Jones a gafodd y syniad o gynnal ras yn rhan o Garnifal Llanberis. Pan gafodd ei chynnal am y tro cyntaf, daeth 86 o bobl i gystadlu. Daeth y ras yn boblogaidd iawn, ac erbyn hyn, mae 500 o redwyr yn rhedeg y 10 milltir ar hyd Llwybr Llanberis i gopa'r Wyddfa ac yn ôl bob blwyddyn.

Mae llawer o redwyr o'r Eidal yn dod i Lanberis bob blwyddyn ers 1980, gan fod clwb rhedeg Llanberis wedi gefeillio â chlwb rhedeg Morbegno yn yr Eidal. Os edrychwch chi ar restr yr enillwyr ar wefan [https://en.wikipedia.org/wiki/Snowdon\\_Race](https://en.wikipedia.org/wiki/Snowdon_Race), fe welwch chi faner yr Eidal wrth ymyl enw'r enillwyr, o 1980 ymlaen.

Does dim llawer o ddamweiniau wedi digwydd yn y ras, drwy lwc. Mae mwy yn digwydd pan fydd y tywydd yn boeth, oherwydd bod rhai rhedwyr yn llewygu ac yn colli gormod o ddŵr o'r corff.

Mae dwy ras i ddynion a dwy i fenywod. Mae un ras o Lanberis i'r copa'n unig, a ras arall o Lanberis i'r copa ac yn ôl. Dyma'r recordiau ar hyn o bryd (2015).

| BLWYDDYN | RAS                    | AMSER   | RHEDWR      |
|----------|------------------------|---------|-------------|
| 1985     | Ras y Dynion           | 1:02:29 | K Stuart    |
| 1993     | Ras y Menywod          | 1:12:48 | C Greenwood |
| 1985     | Ras y Dynion i'r Copa  | 39:47   | R Bryson    |
| 1993     | Ras y Menywod i'r Copa | 47:07   | C Greenwood |








## Roedd haf 1976 yn sych iawn

Edrychwch ar y lluniau ar y gwefannau hyn sy'n dangos pa mor sych oedd hi yn 1976.

Dyma gerdd sy'n disgrifio'r sefyllfa.



## Sychder Mawr 1976

*Os ydyn ni'n aml yn cwyno,*

*Bod Cymru'n lle glawog a llaith,*

*Eleni does dim sôn am gawod,*

*'Mond heulwen ers cyfnod reit faith.*

*Mae'r holl gronfeydd dŵr at eu hanner,*

*Tryweryn sydd felly, rwy'n siŵr.*

*Mae rhannau o'r pentref a gollwyd*

*Yn codi i'r golwg o'r dŵr.*

*Does dim hawl i fynd â dŵr gwerthfawr*

*I ddyfrio planhigion yr ardd.*

*A rhaid derbyn nawr bod ein car ni*

*Yn frwnt ac yn fudr, nid hardd.*

*Rhaid arllwys y dŵr golchi llestri*

*I gadw ein tŷ bach yn lân,*

*'Sdim gobaith cael bath dwfn fel arfer,*

*Ac anodd yw diffodd pob tân.*

*Mae maes yr Eisteddfod\* yn llychlyd,*

*Fu 'rioed 'Steddfod sychach na hon.*

*Rwy'n ysu am weld y glaw eto,*

*Yn 'sgubo dros Gymru fel ton!*

*\*Cafodd Eisteddfod Genedlaethol 1976 ei chynnal yn Aberteifi.*





## **Yn 1986, daeth dwy ganrif o gloddio glo yng nghymoedd Rhondda i ben**



Y dram olaf o lo'n dod o gymoedd Rhondda, 1986. Cafodd y ffotograff ei dynnu ym Mhwll Glo Maerdy gan John Comwell.

Mae 'Cân y Glöwr' gan Dafydd Iwan yn darlunio hen löwr yn cerdded yn y cwm lle cafodd ei eni a lle bu'n gweithio.

Gwrandewch ar 'Cân y Glöwr' gyda Dave Burns yn canu, gan ddilyn y geiriau:



# **‘Cân y Glöwr’ gan Dafydd Iwan**

*Fe gerddai'r henwr yn araf*

*I lawr hyd heol y cwm,*

*Heibio i'r stryd lle bu'n chwarae gynt,*

*Ond heddiw yn unig a llwm.*

*Roedd creithiau'r glo ar ei dalcen*

*A chyrn o'r pwll ar ei law,*

*Ac wrth iddo gerdded hyd lwybr y gwaith,*

*Fe glywai ryw leisiau o draw.*

*Fe glywai leisiau y glowyr,*

*Wrth weithio yn nhywyllwch y ffas,*

*Alun Tŷ Canol a'i denor mor fwyn,*

*A Tomos yn cyd-ganu'r bas.*

*Fe gofiai am hwyl yr hen ddyddiau,*

*Pan oedd bywyd y cwm yn ei fri.*

*Fe gofiai y capel a'r llyfrgell yn llawn*

*Lle heddiw does ond dau neu dri.*

*A heno mae Tomos ac Alun*

*Yn naear y fynwent ill dau.*

*A does dim ar ôl yn awr i'r hen wr*

*Ond atgofion, a phwll wedi cau.*



## Yn 1946, rhoddodd Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru ei berfformiad cyntaf

Dyma gyfweiliad ag Eleri Gwilym, myfyrwraig sy'n astudio canu yn Llundain ac sy'n gobeithio canu mewn cwmni opera yn y dyfodol.



"Gwlad beirdd a chantorion" yw Cymru, yn ôl ein hanthem genedlaethol, ac yn sicr mae'r wlad yn cynhyrchu mwy na'i siâr o gantorion llwyddiannus a byd-enwog. Un o'r rhai sy'n gobeithio dilyn ôl troed enwogion fel Bryn Terfel yw **Eleri Gwilym**, o Abertawe. Astudiodd y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd, a nawr mae'n dilyn cwrs gradd Meistr yn y Celfyddydau mewn Perfformio Lleisiol yn Academi Frenhinol Cerddoriaeth, yn Llundain.





**Dyma gyfweliad ag Eleri Gwilym.**

**Gweiddi:** Sut penderfynaist ti dy fod ti eisiau canu?

**Eleri Gwilym:** Roeddwn i'n mwynhau canu pan oeddwn i'n ifanc iawn. Bues i'n cystadlu mewn eisteddfodau pan oeddwn i'n ddisgybl yn yr ysgol gynradd, Bryn-y-Môr ac wedyn yn yr ysgol gyfun, Bryn Tawe, yn Abertawe. Sefais sawl arholiad canu hefyd. Er i mi wneud gradd yn y gyfraith cyn mynd i astudio canu, roeddwn i'n gwybod mai canu roeddwn i eisiau ei wneud yn y pen draw.

**Gweiddi:** Beth yw'r broses o gael lle yn yr Academi?

**Eleri Gwilym:** Roedd rhaid ysgrifennu cais a datganiad personol yn dweud pam roeddwn i eisiau astudio canu. Roedd pawb yn cael cynnig clyweliad, ac roedd hwnnw'n bwysicach na'r cais ysgrifenedig. Roedd rhaid paratoi tair cân, er mai dwy gân yr oedd rhaid eu canu ar y diwrnod. Ar ôl llwyddo yn y cam cyntaf hwnnw, ces fy ngwahodd yn ôl am ail glyweliad a chyfweliad hefyd. Roeddwn i ar ben fy nigon pan gefais wybod imi gael lle.

**Gweiddi:** Oes rhaid i ti deithio'n bell i'r Academi?

- Eleri Gwilym:** Nac oes, rwy'n byw daflriad carreg o'r Academi, felly rwy'n cerdded yno ac yn cyrraedd tua 9:30 y bore fel arfer.
- Gweiddi:** Sut mae rhywun yn 'astudio canu'?
- Eleri Gwilym:** Mae sawl rhan i'r cwrs. Mae'r amserlen yn llawn iawn! Rwy'n cael dwy awr o wersi canu unigol bob wythnos, gydag athro sy'n canolbwyntio ar dechneg canu. Hefyd, mae hanner awr o ganu gyda hyfforddwr sy'n fy nysgu sut mae lliwio darn a gwella'r dehongliad. Rwy' hefyd yn cael gwersi drama, a gwersi symud hefyd. Mae'n anodd egluro'n union beth yw symud: nid dawns nac ymarfer corff chwaith. Mae'n ein helpu ni i ddod yn ymwybodol o'n cyrff wrth berfformio. Hefyd, rydyn ni'n cymryd rhan mewn golygfeydd o operâu dros y flwyddyn, a chanu fel rhan o gorws mewn cynhyrchiad o opera lawn hefyd.
- Gweiddi:** Ydy dysgu ieithoedd yn bwysig?
- Eleri Gwilym:** Ydy, mae dysgu ieithoedd a sut mae ynganu ieithoedd yn allweddol. Felly rwy'n cael gwersi Eidaleg ac Almaeneg ar hyn o bryd a bydd gwersi Ffrangeg a Saesneg y tymor nesaf. Yn ogystal, byddwn ni'n gwrando ar ein gilydd yn canu yn yr ieithoedd rydyn ni wedi bod yn eu hastudio.
- Gweiddi:** Beth yw pwrpas hynny'n union?
- Eleri Gwilym:** Rwy'n credu bod hyn yn ein dysgu i glustfeinio ar yr iaith er mwyn gwella'r ffordd rydyn ni'n ei hynganu. Mae hyfforddwyr ieithoedd gyda ni hefyd sy'n rhoi sesiynau ynganu un ac un i ni. Felly, mae tipyn o bwyslais ar ieithoedd rhwng popeth.
- Gweiddi:** Oes disgwyl i chi ymarfer llawer ar eich pennau eich hunain hefyd?
- Eleri Gwilym:** Oes, rwy'n ymarfer am o leiaf ddwy awr y dydd. Mae ystafelloedd ymarfer ar gael ac rydych chi'n gallu cyfeilio i chi eich hun wrth ganu neu ofyn i rywun sy'n astudio cyfeilio ddod i ymarfer gyda chi.
- Yn ogystal â hyn, rwy'n gweithio yn amgueddfa'r Academi o bryd i'w gilydd ac yn dysgu sut i addysgu hefyd, felly does dim llawer o amser i segura!
- Gweiddi:** Oes cyfle i berfformio mewn cyngherddau?
- Eleri Gwilym:** Oes, rwy' wedi bod yn perfformio gweithiau gan Bach gydag ensemble lleisiol. Roedd y gerddorfa'n canu hen offerynnau.

**Gweiddi:** Beth yw dy uchelgais?

**Eleri Gwilym:** Hoffwn ganu mewn cwmni opera, dyna'r nod. Ond mae gen i ddwy flynedd yn yr Academi'n gyntaf.

**Gweiddi:** Diolch yn fawr am y cyfweiliad, Eleri, a phob dymuniad da gyda dy yrfa i'r dyfodol.





## Yn 1996, digwyddodd Trychineb y Sea Empress.

Western Mail o'r cyfnod



### Y trychineb

Ar 15 Chwefror 1996, roedd tancer olew y *Sea Empress* ar ei ffordd o Fôr y Gogledd i burfa olew Texaco ger Penfro. Tua 8 o'r gloch y nos, aeth yn sownd ar greigiau ar Benrhyn y Santes Anne. Dros yr wythnos ganlynol, gollyngodd y llong 72 000 tunnell fetrig o olew crai a 370 tunnell fetrig o olew tanwydd trwm.

- Cyrhaeddodd yr olew arfordir Parc Cenedlaethol Sir Benfro a de sir Gaerfyrddin.
- Costiodd hyd at £38 miliwn i'w lanhau ac i dalu iawndal i bobl fel pysgotwyr.
- Cafodd 7 000 o adar eu glanhau ond bu farw'r rhan fwyaf.

### Sefyllfa waeth?

Er bod y trychineb yn ddifrifol, gallai fod wedi bod yn llawer gwaeth.

- Digwyddodd y trychineb ym mis Chwefror, felly roedd hi'n bosibl gwneud llawer o waith glanhau cyn i'r tymor ymwelwyr ddechrau adeg gwyliau'r Pasg. Gwnaeth y cyngor a gwirfoddolwyr ymdrech fawr mewn mannau poblogaidd gyda thwristiaid, fel Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot a Phentywyn.

- Diolch byth, chyrhaeddodd yr olew ddim o'r gwarchodfeydd natur pwysig fel Ynys Sgomer. Ar Sgomer, mae 10 000 pâr o balod a dros 300 000 pâr o adar drycin Manaw yn dod i fagu rhai bach ym mis Mai.

### **Ers y trychineb**

Ers y trychineb, mae rhai newidiadau wedi digwydd:

- Rhaid cael dau beilot sydd wedi cael hyfforddiant ar bob llong dros 120 000 tonnall fetrig. Dim ond un oedd ar y *Sea Empress*.
- Mae cyfrifiaduron yn rhoi gwybodaeth well am y llanw, e.e. pa mor gryf yw'r llanw.
- Mae systemau gwell er mwyn ymateb yn gyflymach os bydd trychineb arall yn digwydd.



## 1966: Agor ffordd osgoi Port Talbot

Yn 1966, agorwyd ffordd osgoi Port Talbot, A48(M), a ddaeth yn rhan o'r M4. Ar y pryd, hon oedd y rhan gyflymaf o'r daith rhwng dwyrain a gorllewin Cymru ar hyd ffordd yr A48.

Dyma ymson person sy'n byw ym Mhort Talbot ers 50 mlynedd.



### Gwanwyn 1965

Mae'r tŷ'n llawn llwch ar hyn o bryd. Oherwydd ei bod hi'n braf, mae'n anodd peidio ag agor y ffenestri, felly mae'r llwch yn codi wrth i'r lorïau mawr yrru heibio. Maen nhw wrthi'n gweithio'n ddyfal. Mae pileri mawr yn codi ar hyd llwybr y draphont a fydd yn cario'r ffordd osgoi newydd dros waelod Cwm Afan. Maen nhw'n edrych fel pileri teml yng ngwlad Groeg!



Rydyn ni wedi bod yn lwcus; doedd dim rhaid bwrw ein tŷ ni i lawr, fel digwyddodd i'n ffrindiau ddwy stryd i ffwrdd. Cafodd eu tŷ nhw ei brynu drwy orchymyn prynu gorfodol gan fod y stryd yn llwybr y ffordd osgoi. Maen nhw wedi symud i fyw i Faglan, felly dydyn nhw ddim yn rhy bell, diolch byth.

Ond rhaid cyfaddef, fydd Port Talbot byth yr un fath. Mae'r ffordd osgoi'n mynd i hollti'r dref, fwy neu lai. Ar y llaw arall, mae'n debyg fod rhaid derbyn y datblygiad newydd hwn er mwyn diogelu dyfodol economaidd yr ardal.

### **Gorffennaf 1966**

Mae'r ffordd osgoi newydd agor! Ei henw ar hyn o bryd yw A48(M), ond mae'n debyg y bydd yn rhan o'r M4 newydd cyn hir.

Profiad annifyr braidd yw gweld y ceir yn gwibio ar y draphont uwch ein pennau. Hyd yn oed yn oriau mân y bore, mae grwnan y ceir a'r lorïau i'w glywed. Dyw hi byth yn hollol dawel, a byth yn hollol dywyll chwaith.

Bydd rhaid i ni fyw gyda hyn. Hon yw rhan gyflymaf y daith rhwng gorllewin a dwyrain Cymru. Roedd cymaint o dagfeydd traffig ar yr hen ffordd, yn enwedig pan fyddai'r gatiau'n dod i lawr er mwyn i drên y gwaith dur ei chroesi. O leiaf bydd hi'n cymryd llai o amser i deithio i Gaerdydd.



### **Ionawr 2016**

Anodd credu bod hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers agor ffordd osgoi Port Talbot. Rydyn ni wedi byw gyda'r sŵn a'r llygredd, ac i beth? Bellach, dyma ran arafaf y daith ar hyd yr M4 yn ne Cymru. Mae cyfyngiad cyflymder o 50mya yma ers amser. Yn ddiweddar maen nhw wedi gosod




camerâu cyflymder cyfartalog yma hefyd. Mae hynny'n golygu bod llai o sŵn, rhaid cyfaddef. Ond mae'r tagfeydd traffig wedi cynyddu dros y blynyddoedd, ac mae'n amlwg fod angen mwy na dwy lôn bob ffordd, yn enwedig yn yr oriau brig.

Mae'r draffordd yma i aros, gwaetha'r modd. Erbyn meddwl, efallai y byddai wedi bod yn well petaen ni wedi gorfod symud, fel ein ffrindiau ym Maglan.



**Yn 1956, cafodd Ysgol Glan Clwyd ei hagor.**



Ysgol Glan Clwyd

Chwe deg mlynedd yn ôl, ym mis Medi 1956, agorodd Ysgol Glan Clwyd.

Beth sy'n arbennig am hynny, meddech chi? Wel, Ysgol Glan Clwyd oedd ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf Cymru. Roedd llawer o ysgolion cynradd Cymraeg i'w cael yn barod, a dechreuodd rhai deimlo bod angen addysg uwchradd Gymraeg hefyd.

Dr. Haydn Williams, Cyfarwyddwr Addysg yr hen Sir Fflint oedd y dyn allweddol a aeth â'r maen i'r wal. Llwyddodd i ddarbwylllo rhieni a chynghorwyr yr ardal fod angen ysgol uwchradd Gymraeg. Doedd dim angen i'r rhieni ymgyrchu'n hir cyn cael ysgol, fel digwyddodd mewn nifer o fannau eraill yng Nghymru.

Beth roedd Dr. Haydn Williams eisiau ei weld mewn ysgol uwchradd Gymraeg? Roedd yn gobeithio y byddai'r awyrgylch yn hollol Gymraeg, y byddai'r gwaith swyddfa yn cael ei wneud yn Gymraeg i gyd, ac y byddai llawer o'r pynciau'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ysgolion yn Seisnig iawn ar y pryd, hyd yn oed yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig.

Ar y dechrau, adeiladau Ysgol Emmanuel, y Rhyl oedd cartref 95 disgybl a 12 athro'r ysgol. Ond yn Llanelwy, sir Ddinbych, nid nepell o'r Gadeirlan, y mae safle'r ysgol ers 1969. Dros y blynyddoedd, tyfodd yr ysgol i 500 disgybl yn 1969 ac yna 1 200 yn 1980. Ar ôl i Ysgol y Creuddyn gael ei hagor rhwng Llandudno a Bae Colwyn yn 1981, cwmpodd niferoedd Ysgol Glan Clwyd i tua 900 am gyfnod. Erbyn hyn, mae lle i tua 1 000 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16, bydd yr ysgol yn cynllunio gwisg ysgol newydd i'w gwisgo am y tro cyntaf ym mis Medi 2017, pan fydd adeilad newydd yr ysgol, gwerth bron i £16 miliwn, yn cael ei agor. Wedyn, bydd lle i 1 250 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Roedd y penderfyniad i agor Ysgol Glan Clwyd yn bwysig iawn, gan i nifer o ysgolion uwchradd eraill gael eu hagor yn ystod y degawd dilynol: Ysgol Maes Garmon (1961), Ysgol Gyfun Rhydfelen (1962), Ysgol Morgan Llwyd (1964) ac Ysgol Gyfun Ystalyfera (1969).







## **Yn 1946, cafodd Penrhyn Gŵyr ei ddynodi'n ardal o harddwch naturiol arbennig**



**Yn 1946, cafodd Penrhyn Gŵyr ei ddynodi'n ardal o harddwch naturiol arbennig**

### **Mae arfordir Cymru'n beryglus!**

Ydy, mae arfordir Cymru'n hardd iawn, ac ers i Lwybr Arfordir Cymru gael ei agor, mae ymwelwyr yn tyrru yma. Ond mae'r arfordir yn beryglus hefyd! A wyddech chi fod mwy o bobl yn marw ar yr arfordir nag sy'n marw mewn damweiniau seiclo ar y ffordd fawr yng Nghymru?

Yn 2015, cyhoeddodd y RNLI fod 19 o bobl wedi colli eu bywydau o gwmpas arfordir Cymru yn 2014, ond doedd 69% o'r rheini ddim wedi bwriadu mynd i'r dŵr. Gallai'r ffigurau fod wedi bod yn llawer uwch oherwydd achubodd criwiau a gwarchodwyr bywyd y RNLI 84 o fywydau'r un flwyddyn.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae cyfartaledd o 18 person y flwyddyn wedi marw. Ond nid yn y dŵr y mae'r rhan fwyaf o bobl yn marw.



Dyma rai ystadegau:

- O'r 89 o bobl a fu farw ar yr arfordir dros y pum mlynedd diwethaf, roedd dros hanner (57%) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel rhedeg, dringo a mynd mewn cychod.
- Dros yr un cyfnod o amser, bu farw 31% ar ôl llithro a chwympo wrth gerdded a rhedeg. Dyna'r achos marwolaeth mwyaf.
- Bu farw 25% ar yr arfordir wrth nofio, neidio i mewn i'r dŵr ac wrth hamddena'n gyffredinol.
- Bu farw 8% o'r 89 person wrth bysgota, a 7% wrth eu gwaith.
- Mae dynion yn llawer mwy tebygol o fynd i drafferthion ar yr arfordir na menywod – dynion oedd tri chwarter y rhai a fu farw ar yr arfordir dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r RNLI yn gobeithio haneru nifer y bobl sy'n marw ar arfordir Cymru erbyn 2024. Roedd eu hymgyrch yn 2015 – 'Respect the Water' yn rhybuddio pobl i fod yn ymwybodol o beryglon yr arfordir, yn ogystal â'r dŵr ei hun. Dangoswyd y ffilm mewn sinemâu yn ystod yr haf ac mae hefyd ar gael i'w gweld ar y wefan [www.rnli.org/respectthewater](http://www.rnli.org/respectthewater) (<http://www.rnli.org/respectthewater>). Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd digwyddiadau i dynnu sylw at yr ymgyrch. Yn Aberystwyth, daeth achubwyr bywyd RNLI at ei gilydd i ddangos i bobl pa mor drwm yw metr ciwbig o ddŵr, a'r pwysau a allai fod ar eich ysgyfaint os ydych chi'n digwydd syrthio o dan y dŵr.